CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 03 Mawrth Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 11eg o Fawrth 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Annette Price (Cadeiryddes), Y Cynghorwyr Loreen Lewis, June Gunter, D Arnallt James, Anthony Richards, Carwyn James, Anne Sizmur, Catherine Smith, Menna Roberts, Richard Howell, Maldwyn John a'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Betsan Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

COFRESTR O DDIDDORDEBAU AELODAU.
NODWYD fod y Cynghorwr Anne Sizmur wedi cwblhau a dychwelyd ei chofrestr o'u diddordebau i'r Clerc.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 11eg o CHWEFROR 2009.
Roedd gan y Cynghorwr Annette Price y newidiadau canlynol i'w gwneud:-
2.2 – Dywedwyd yn flaenorol bydd y bwrdd hysbysu yn cael ei rhoi ifynny erbyn y Nadolig.
7.0 (2ail paragraff) - Roedd Mr Noakes o'r Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin yn gwybod am y mater hwn, ac roedd yr Adran Gyfreithiol o Gyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i ysgrifennu at TRJ.
8 – Dywedwyd fod yna 12 damweiniau wedi cael ei riportio yn 2008.
Cytunwyd y Cynghorwyr i'r newidiadau uchod.

Cadarnhaodd y Cynghorwr June Gunter ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod yr 11eg o Chwefror 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei bod hi wedi cyfarfod gyda'r Cyfreithiwr ar y 20 o Chwefror 2009, ynghyd â'r Cynghorwyr Annette Price, Richard Howell, Loreen Lewis a Catherine Smith. Dywedodd y Clerc fod Clwb Rygbi'r Betws ym meddiant y Clwb Rygbi a hefyd y maes parcio. Roedd y Cynghorwr Richard Howell wedi diweddari'r Cynghorwyr ar y cyfarfod gyda'r Cyfreithiwr.

Rhoddodd y Cynghorwr Annette Price copïau o le chwarae a Chlwb Rygbi'r Betws i'r Cynghorwyr. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price yn 1974 fod rhywun wedi gwneud cais cynllunio am y tir - rhif 655/74 ar y plan. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Annette Price fod y Cyfreithiwr wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglyn â'r mater hwn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr H Jones i weld os oedd Clwb Rygbi'r Betws wedi gofyn am ganiatâd wrth ganolfan cymuned y Betws i adeiladu'r ty clwb newydd.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi danfon y ffurflen gais trwyddedu at Atech Graffig ac Arwyddion (Llanelli) oherwydd mae eisiau manylion yswiriant . NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.3 Bwrdd Picnic – Ysgol Gynradd y Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi cael cadarnhad wrth Ysgol Gynradd y Betws ei bod nhw wedi derbyn trosglwyddiad o'r bwrdd picnic ar y 6ed o Fawrth 2009, ac roedd y Brif Athrawes yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Cymuned. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.4 Bin a meinciau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi danfon e-bost at Gareth Howells yn gofyn iddo cysyllti gyda'r Gadeiryddes ynglyn â ble i roi'r bin a'r meinciau. Roedd y Gadeiryddes wedi cadarnhau nid yw hi wedi clywed wrth Gareth Howell hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysyllti gyda Mr Gareth Howells eto.

2.5 Golau Solar am Barc y Betws - Gardd Synhwyro a Choffa.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn e-bost wrth 'Sunset Solar', sy'n barod i gwrdd gyda'r Cynghorwyr i drafod ei anghenion. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda Sunset Solar a hefyd yn gwahodd Gerwyn Thomas.

2.6 Goleuadau Tymhorol/Croeso am Gymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi ceisio ffonio'r Clerc i Gwmaman, ond nid yw hi wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.7 Gorchymyn Cadwraeth ar goedwig o fewn Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Richard Howell ei fod ef wedi siarad gyda Steve Edwards o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi rhoi cynllun iddo o'r goedwig ym Metws sydd a gorchymyn cadwraeth. Nodwyd y Cynghorwyr nid oedd rhai coedwig ar y cynllun. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gofyn a gall y goeden dderw Americanaidd, y goeden tu cefn i Olwg Y Mynydd a hefyd y llwyn derw ger Treforis cael ei chynnwys yn y cynllun.

2.8 Cwrs Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cwrs hyfforddiant cod ymddygiad i Gynghorwyr wedi cael eu trefnu am y 18 o Fawrth 2009. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.9 Gliniadur i'r Clerc.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn ei gliniadur newydd a rhoddodd ddiolch i'r Cynghorwyr.

2.10 Gwefan y Gymuned.
Dywedodd y Clerc ei bod hi'n cael trafferth rhoi cofnodion ac agenda ar wefan y Gymuned. Mae hi wedi rhoi cofnodion hyd at fis Mawrth 2008. Rhoddodd y Clerc cadarnhad fydd y cofnodion a'r agenda diweddar yn cael eu rhoi ar y gwefan erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr

2.11 Cyngor Cymuned y Betws – Dogfennau.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi archifo cofnodion y Cyngor Cymuned. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.12 Pwyllgor Safonol.
Dywedodd y Clerc fod Mr Grafton o Gyngor Sir Caerfyrddin eisiau trafod gyda'r Cynghorwyr Annette Price ac Arnallt James ei ffurflen Pwyllgor Safonol. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.13 Sieciau - Cronfa Adferiad Paul Pugh a Lwfans y Gadeiryddes Rhandal 1af.

Dywedodd y Gadeiryddes ei bod hi wedi distrywied y sieciau uchod oherwydd fu nhw'n ddyddiedig Mai 2008. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn rhoi sieciau ailddodiad i'r Gadeiryddes.

2.14 Annwyl Fan, Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.15 Banc y Wern, Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Cyngor Undeb Llafur Llanelli
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Arolwg Cyfleusterau a Gwasanaethau Aneddiadau – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.
•Un Llais i Gymru – Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin.
•Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Gwahoddiad i ymweld â Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
•Gwybodaeth am y 'Digital UK Switch Over' – rhoddwyd i Gynghorwr Annette Price.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Nid oedd gan Gyngor Cymuned y Betws unrhyw wrthwynebiad ynglyn â'r cais cynllunio canlynol:-
E/20707 – Sied Storfa Amaethyddol a Gweithdy, tir ger Banc y Wern, Betws (23-2008/09).
E/20248 - Diwygio cynlluniau - Datblygiad preswyl (materion ar gadw i ganiatâd cynllunio amlinellol E/09584) Gwaith Glo blaenorol Betws (16b-2008/09).

4.2 .1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai isod:-
E/20229 - Rhyddhau'n amodol 6,9,20 & 24 o gais cynllunio E/17037, ger Glyncywarch Washery, Betws (15-2008/09).
E/20339 - Cynllunio, golwg allanol a thirweddu o'r datblygiad (E/15892 - adeiladu ystabl) tir ger Ffarm Bryneithin, ger Heol Maerdy, Betws (19-2008/09).
E/20425 - Rhyddhau'n amodol 3 o gais cynllunio E/17037, ger Glyncywarch Washery, Betws (17-2008/09).
E/20338 - Cynllunio, golwg allanol a thirweddu o'r datblygiad (E/15891 - adeiladu 2 ty) tir ger Ffarm Bryneithin, ger Heol Maerdy, Betws (20-2008/09).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1.Morgan & Morgan (001092) £419.76
2.Cyflog a Lwfans y Clerc (001093) £914.00
3.Treth Incwm y Clerc (001094) £179.48
4.Taliadau Capel Newydd (3 x Cyfarfodydd) (001095) £30.00
5.Cronfa Adferiad Paul Pugh – Siec ailddodiad (001096) £200.00
6.Lwfans 1af y Gadeiryddes - Siec ailddodiad (001097 £200.00
Cyfanswm £1943.24
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i dalu'r bil uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 4 trosedd i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Chwefror, sy'n cynnwys 1 lladrad, 1 eiddo canabis ac 2 lladradau o gerbydau . Hyd yn hyn mae yna 50% datgeliad cyfradd.

Roedd y Cynghorwyr wedi adrodd i PC Kevin Jones ar y materion canlynol:-
1.Mae un o'r Cynghorwyr wedi derbyn galwad ffôn dienw ac roedd y person ar ochr arall y ffon yn ymosodol iawn. Dywedodd PC Kevin Jones i'r Cynghorwr os yw'r mater hwn yn parhau delai cysyllti â BT.
2.Mae yna ychydig o fechgyn yn ei arddegau yn achosi niwsans. Mae PC Kevin Jones wedi siarad gyda'r arweinydd ychydig o ddiwrnodau yn nol a fydd yn fonitor sefyllfa.
3.Mae rhai pobl yn gyrru amgylch Betws yn dractorau newydd ond maen nhw'n tynnu trelars hen. Adroddodd un o'r Cynghorwyr fod trelar wedi cwymp rhai wythnosau yn nol ger Tesco. Mae'r Cynghorwyr yn pryderu oherwydd sut maen nhw'n dod bant a hyn? Dywedodd PC Kevin Jones fod yna Adran Traffig newydd yn dod i Rydaman a fydd yn gofyn iddyn nhw edrych i mewn i'r mater hwn.
4.Mae yna gerbyd ar y cornel o Sgwâr Tir-y-dail, sydd yn rhwystro'r traffig. Fydd PC Kevin Jones yn edrych mewn i'r mater hwn.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones ar y materion canlynol:-

Glyncywarch - Mae hi wedi derbyn e-bost wrth Gary Carlsen a ddarllenwyd i'r Cynghorwyr ynglyn â Gwaith Glo Hen y Betws. Hefyd darllenodd y Clerc e-bost a dderbyniwyd wrth Gary Carlsen i'r Cynghorwyr, a dywedodd fod ganddo gyfarfod gyda TRJ ar y 13/03/09 a fydd yn diweddari'r Cyngor ar ôl hyn. Roedd y Cynghorwyr yn pryderu ynglyn â'r mater hwn ac fe BENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon pryderon y Cynghorwyr ymlaen at Gary Carlsen.
Warden y Cwn - Adroddodd fod warden y cwm wedi ei leoli ar Heol y Betws am dri diwrnod rhwng 6am a 9am, ond nid yw'r warden wedi gweld ci yn ffowlio. Nodwyd y Cynghorwyr fod ganddynt bryderon ynglyn â ffowlio cwn ar nifer o hewlydd ym Metws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at warden y cwn i ofyn iddo am gopi o'u hadroddiad a hefyd yn gofyn iddo ymweld ag ardaloedd eraill ym Metws.

Adroddodd y Cynghorwr Catherine Smith fod yna adran o'r hewl ar Heol y Mynydd yn ymgwympiad (ar ôl y tanc). Roedd y Cynghorwr Sir Audrey Jones wedi cadarnhau bydd hi'n edrych mewn i'r mater hyn.

Darllenodd y Cynghorwr Annette Price cofnodion rhif: 1529 dyddiedig 30/07/91 wrth Gyngor Bwrdeistref Dinefwr i'r Cynghorwyr ynglyn â darpariaeth awgrymwyd o le chwarae ger Parc Coetir, Betws. Dywedodd nid yw Cyngor Bwrdeistref Dinefwr wedi erlid y Datblygydd am yr arian.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i Gynghorwr Sir Audrey Jones am ei adroddiad.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Gwaith Glo'r Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn cyfarfod, lle'r oedd Dr John D Evans hefyd yn bresennol, dywedodd fod ganddo bryderon ynglyn â safle Gwaith Glo'r Betws a pheryglon yno. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Dr John D Evans yn gofyn iddo roi ei phryderon yn ysgrifenedig i'r Cyngor Cymuned, cytunwyd y Cynghorwyr.

8.2 Llwybrau Troed.
Adroddodd y Cynghorwr Annette Price nid yw'r bartneriaeth rhwng Mr Burridge a'r Cyngor Sir yn gweithio. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysyllti ag Eirian James o

Gyngor Sir Caerfyrddin I weld pryd mae'r Cyngor Sir yn trosgymryd cynnal a chadw'r llwybrau troed.

Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards ei fod yn gwybod am 12 llwybrau sydd heb gael ei chynnal a chadw. Hefyd adroddodd y Cynghorwr Anthony Richards fod y llwybrau troed canlynol yn stad wael:- 67/30, 3/20, 3/21, 3/22 (mae hyn yn stad wael), 3/1 (Pantyffynnon mae yna giât yn eisiau), 3/8 (anhramwyadwy), 3 /4 (mae'r arwyddion wedi cael ei gymryd i ffwrdd). PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Burridge I ddweud wrtho am yr uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Clwb Pêl -droed y Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Richard Howell fod Cadeirydd Clwb Pêl-droed Betws yn dal eisiau cael cyfarfod gyda'r Cynghorwyr. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysyllti gyda'r cadeirydd.

9.2 Parc Betws .
Gofynnodd y Cynghorwr Richard Howell os fydd picnic yn y parc yn cymru lle blwyddyn hyn. Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis nid oedd yna bicnic yn y parc blwyddyn ddiwethaf oherwydd amodau iechyd a diogelwch.

9.3 Gohebiaeth.
Roedd y Cynghorwyr yn poeni oherwydd nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i ohebiaeth y Cyngor Cymuned. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon copïau pwysig ymlaen at brif weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gorffennodd y Cyfarfod am 10.00 yr hwyr.